



CANOLBWYNT CYFLOGAETH

CONWY

EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

AWST 2022

Newyddion y Canolbwynt



CROESO

Roedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn llwyddiant ysgubol i dîm Canolbwynt Cyflogaeth Conwy wrth i ni ragori ar ein canlyniadau o ran Swyddi ar draws tair rhaglen Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.

Mae'r dair rhaglen wedi bod yn achubiaeth i lawer ac yn benodol, mae Conwy wedi'i amlygu fel y gorau ar draws Cymru o ran Cymunedau am Waith, sy'n gydnabyddiaeth o waith caled fy holl gydweithwyr.

Wrth i ni nesáu at hanner ffordd trwy'r flwyddyn ariannol hon, rydym yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd mawr. Mae rhagor wedi'u cynllunio ar gyfer y chwe mis nesaf, a byddwn yn gallu eu cyhoeddi cyn hir. Mae'r argyfwng costau byw yn bryder mawr i ni i gyd ond teuluoedd ar incymau is sy'n cael eu heffeithio fwyaf. Gyda'r sefyllfa ar fin gwaethygu, byddwn yn parhau i helpu preswylwyr Conwy gyda chymorth cyflogaeth a chynghor am fudd-daliadau.

Gobeithio byddwch chi'n mwynhau'r rhifyn hwn ond mae croeso i chi gysylltu â ni os gallwn ni eich helpu chi a'ch busnes mewn unrhyw ffordd.

Libby Duo

Libby Duo, Rheolwr Strategol

RHIFYN 3

Uchafbwyntiau'r Newyddlen

Llwyddiant 2021-22

Targedu Rhai Sy'n
Chwilio Am Waith

Rhaglen Pobl Ifanc

Cefnogaeth i Wcráin

BLWYDDYN I'W CHOFIO



Mae Cymunedau am Waith, gyda chefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yn rhaglen ar sail cod post sy'n cefnogi pobl ddi-waith hirdymor, pobl economaidd anweithgar 25 oed a hŷn, a phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.

Gwnaethom ragori ar nifer y bobl 25 oed a hŷn wnaeth ddechrau mewn swyddi o 215% a 238% ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.



Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn gweithredu mewn ffordd debyg i Gymunedau am Waith, ond mae'r rhaglen wedi'i thargedu at bobl sydd naill ai'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o dlodi ac mae ar gael ar draws sir Conwy. Gwnaethom ragori ar nifer y bobl wnaeth ddechrau mewn swyddi o 101%.



Mae'n cefnogi pobl sy'n gweld bod costau gofal plant yn eu hatal rhag hyfforddi neu weithio, a thrwy geisio cefnogaeth gennym ni, gwnaethom ragori ar ein nod o helpu pobl ddychwelyd i'r gwaith o 179%. Llwyddodd 93% anhygoel o gyfranogwyr ar raglen PaCE i gael gwaith, a bu'r 7% arall yn dilyn hyfforddiant i ddatblygu eu set o sgiliau cyn chwilio am waith.



Dywedodd Libby: "Roedd 2021 yn anodd i ni i gyd oherwydd bod nifer o gyfyngiadau Covid ar waith o hyd, ac ni ddychwelodd pethau i rhyw fath o normalrwydd tan ddiwedd mis Ionawr, felly rwy'n arbennig o hapus gyda'r canlyniadau hyn a'n bod wedi rhagori ar ein disgwyliadau trwy'r cyfnod heriol hwn.

"Mae pob un o fy nghydweithwyr wedi gweithio'n ddiflino dros y 12 mis diwethaf i ddarparu cefnogaeth fentora ddwys a phersonol i ddatblygu hyder a sgiliau ein cyfranogwyr ac er mwyn eu helpu i ganfod a chadw gwaith. Rydym wedi gallu cynnig cyflogaeth, cefnogaeth mewn gwaith, cyfrifiadau 'gwell allan' a hyfforddiant a chymwysterau. Yn ogystal, rydym wedi helpu nifer o bobl i oresgyn nifer o rwystrau i'w helpu i gael a chadw gwaith."

TARGEDU RHAI SY'N CHWILIO AM WAITH

Ydych chi'n defnyddio Bwletin Swyddi Cymru'n Gweithio i hysbysebu eich swyddi gwag?

Mae'r Bwletin Swyddi yn adnodd defnyddiol iawn er mwyn i'ch swyddi gwag presennol gael eu rhannu mewn e-bost personol â rhai sy'n chwilio am waith.



Mae'r Bwletin wedi'i rannu'n ddwy ran. Swyddogaeth paru swyddi sydd yn y rhan gyntaf sy'n amlygu unrhyw swyddi ar system Cymru'n Gweithio mae modd eu paru â galwedigaethau a lleoliad dewisol y cwsmer, ac mae'r ail ran yn darparu rhestr ddaearyddol ychwanegol o hyd at 50 swydd wag sydd agosaf at god post y cwsmer.

Mae modd i gyflogwyr hysbysebu'n rhad ac am ddim. Er mwyn llwytho eich swyddi gwag i'r Bwletin Swyddi, anfonwch e-bost gyda manylion y swyddi gwag gan gynnwys dolen i'r hysbyseb am swydd lle bo'n bosibl at vacancies@careerswales.gov.wales.

CANOLBWYNTIO AR YR IFANC

Ym mis Ebrill 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Gwarant i Bobl Ifanc i sicrhau bod pob person ifanc 16-24 oed yn gallu cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu fod yn hunangyflogedig.

Fel rhan o'r fenter hon, rydym wedi cael mwy o gyllid i gefnogi pobl ifanc yng Nghonwy i'w helpu i ddechrau eu taith mewn gwaith a gyrfa. Mae ein rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn gweithio ar draws y sir bellach trwy gynnwys mentoriaid a helpu mwy o bobl ifanc ag anghenion cymhleth a rhwystrau i gael gwaith neu hyfforddiant.



WEMINDTHEGAP

Mae rhaglen WeDiscover WeMindTheGap wedi'i hanelu at bobl ifanc 16 i 25 oed a chaiff ei rhedeg mewn partneriaeth â'r Canolbwynt. Mae wedi cael effaith mor gadarnhaol ar gyfranogwyr yng Nghonwy fel ei bod yn cael ei chyflwyno ar draws Gogledd Cymru bellach.

Gwnaeth cyfranogwyr ganmol mentoriaid y rhaglen am newid eu bywydau a rhoi'r hyder iddynt fanteisio ar gyfleoedd ar ôl y pandemig. Yn eu plith roedd MJ, gofalwr ifanc a oedd yn ei chael yn anodd delio â materion iechyd meddwl a chyfaddefodd fod WeDiscover wedi "rhoi rhywbeth i'w wneud" ar ôl diffyg cymhelliant ar ôl gadael ysgol.

"Nid oeddwn i'n gwneud llawer heblaw chwarae gemau fideo a gwneud gwaith celf o bryd i'w gilydd, ond roeddwn i'n colli'r angerdd drosto," meddai.



"Daeth fy chwaer o hyd i'r cwrs ar-lein ac i ddechrau, nid oeddwn i'n meddwl y byddwn i'n mynd amdani, neu'n mynd am un diwrnod o bosibl, ond fe wnes i aros ac rwyf mor falch i mi wneud hynny oherwydd roedd yn brofiad anhygoel."

Ers i'r rhaglen ddechrau yn 2014, maen nhw wedi newid bywydau hyd at 250 o bobl ifanc, gan ddarparu mwy na £5.5 miliwn o ran gwerth cymdeithasol a mwy na £2.5 miliwn o ran arbedion cyhoeddus.

Dywedodd Rachel Clacher CBE, Cadeirydd a Sylfaenydd WeMindTheGap: "Mae effaith Covid-19 a chyfyngiadau parhaus wedi cael effaith anghymesur ar ein pobl ifanc. Trwy ddarparu rhaglen gyda chariad a chyfleoedd ystyrlon, ein nod yw cefnogi pobl ifanc i drawsnewid eu bywydau eu hunain a chymryd y cam nesaf i'r byd ehangach."

Bydd y rhaglen WeDiscover nesaf yn rhedeg ar draws Gogledd Cymru o 3 Hydref.

ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL

Mae Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n arddangos sut maen nhw wedi bod yn gyrru'r agenda sgiliau a chyflogadwyedd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar.

Gallwch lawrlwytho copi o'r [Adroddiad Blynyddol yma](#) er mwyn darllen am gyflawniadau'r Bartneriaeth.

YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

Mae ein sesiynau Galw Heibio a Chlybiau Swyddi wyneb i wyneb wedi ailddechrau ac mae'n wych bod yn ôl yn y gymuned leol.

Ar hyn o bryd, mae gennym naw digwyddiad sy'n rhedeg bob wythnos, ond rydym yn ychwanegu mwy dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau ein bod ym mhob ardal allweddol lle mae angen ein help fwyaf ar breswylwyr Conwy.

Mae'r sesiynau Galw Heibio mewn llyfrgelloedd a chanolfannau teulu/cymunedol bob amser yn gyfle i bobl siarad â'n Mentoriaid ac Ymgynghorwyr am y materion maen nhw'n eu hwynebu, p'un ai yw hynny'n ddiffyg hyder, cyngor am fudd-daliadau, help i ganfod swydd neu hyfforddiant i feithrin sgiliau.

Mae'r Clybiau Swyddi yng Nghanolfan Dewi Sant, Pensarn a Chanolfan Gymunedol Tŷ Llywelyn, Llandudno yn cynnig cefnogaeth fwy personol wrth ganfod gwaith. Mae hyn yn cynnwys help i ysgrifennu CV, ceisiadau am swyddi a pharatoi pobl ar gyfer cyfweiliadau yn ogystal â chefnogaeth i fynd ar-lein.



GOFAL CYMDEITHASOL

Mae'r argyfwng recriwtio o ran y sector gofal cymdeithasol yn parhau, felly er mwyn cefnogi tîm Datblygu'r Gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i recriwtio rhagor o bobl i'r sector hwn, rydym wedi cyflogi Mentor Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol pwrpasol. Byddwn yn cefnogi'r tîm â nifer o fentrau dros y misoedd nesaf hefyd a byddwn yn rhannu rhagor o fanylion am rhain yn y rhifyn nesaf.

GOFALWR LLAWN YSBRYDOLIAETH

Mae Jess Watson yn parhau i roi pobl eraill o'i blaen hi ei hun, er ei bod yn rhannol ddall a byddar ers ei geni, ei bod yn ddyslecsig ac wedi dioddef â Labyrinthitis a meigrinau cronig trwy gydol pandemig Covid-19.

Mae hi'n 26 oed ac mae hi'n teithio ar fws bob wythnos gyda'i chi cymorth, Jingle, i Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, lle mae hi'n treulio amser gyda chleifion ar y ward strôc, yn chwarae gemau, gwranddo a siarad â nhw yn ei rôl fel gweithiwr cefnogi.

Ar ôl symud i Landudno, lle mae'r teulu'n berchen ar Dŷ Llety St Hilary ar bromenâd y dref, fe'i rhoddyd mewn cysylltiad â Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy, a'i cyfeiriodd at raglen interniaeth blwyddyn Engage to Change, DFN Project Search, sy'n annog pobl ag anabledd dysgu i ennill sgiliau hanfodol a phrofiad gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Ar ôl chwe mis o hyfforddiant, mae Jess yn mwynhau ei hamser yn yr ysbyty, a dywedodd: "O ystyried fy anableddau, doedd gyrfa yn y GIG ddim yn rhywbeth roeddwn i wedi'i ystyried, roeddwn i'n meddwl y byddai gormod o rwystrau.

"Ond mae'r rhaglen hon wedi dangos i mi bod rôl i mi, ac mae'n werth chweil. Rwy'n awyddus i helpu eraill, dyna beth rwyf am ei wneud gyda fy mywyd ac mae hynny'n cynnwys anifeiliaid, sef pam rydw i hefyd yn gwirfoddoli rhywfaint gyda PetPlace, sydd wedi bod yn gefnogol iawn hefyd.

"Rwy'n lwcus bod fy nheulu, Canolbwynt Cyflogaeth Conwy, y bwrdd iechyd ac eraill wedi rhoi llawer o gefnogaeth i mi, sydd wedi rhoi hyder i mi edrych ymlaen ac archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael.

"Mae platfformau a rhaglenni sy'n gallu eich helpu i wireddu eich breuddwydion - mae'n rhaid i chi fynd amdani."



Jess Watson gyda'i chi tywys, Jingle a'i mentor o'r Canolbwynt, Susan Tracey

HELP I WLADOLION WCRÁIN

Mae ein Swyddog Brysbennu, Bernie Haniewicz, wedi bod yn mynychu'r clinigau adsefydlu wythnosol ar gyfer gwladolion Wcráin er mwyn cynnig ein help a'n cefnogaeth i ffoaduriaid sy'n chwilio am waith.

Mae nifer o bobl Wcráin yn hynod fedrus ond nid yw eu cymwysterau yn gydnaws â system y DU, ac mae rhwystr ychwanegol, sef Saesneg. Gyda chanolbwynt ar ddatrysiad, mae Bernie wedi cydweithio â Chymru'n Gweithio, a gaiff ei ddarparu gan Gyrfa Cymru, i gyflymu proses cydnabod ac alinio cymwysterau gwladolion Wcráin yn ogystal â chyflwyno cyrsiau Saesneg.

Mae ein deunydd hyrwyddo wedi'i gyfieithu i'r Wcreineg ac aeth Bernie â'r rhain gydag ef pan ymunodd â'r "Orymdaith Heddwch" ar hyd Promenâd Llandudno ar ddechrau mis Gorffennaf.

Meddai Bernie: "Cefais groeso mawr gan bawb a oedd yn bresennol ac roedd pobl Wcráin yn gwerthfawrogi'r croeso'n fawr, a'r holl help a chefnogaeth maen nhw'n ei gael gan breswylwyr a busnesau Conwy."

Rydym wedi cofrestru nifer fawr o ffoaduriaid Wcráin i'n rhaglenni, a bydd Bernie'n parhau i chwarae rôl weithredol wrth eu helpu nhw trwy gynnal cyfarfodydd mewn Canolfannau Meddygol yn ogystal â gwestai lleol lle mae llawer ohonyn nhw'n aros.



HOFFECH CHI GAEL CYHOEDDUSRWYDD AM DDIM?

Mae nifer o westeion wedi bod ar ein slot Employability Features ar Sound Radio a Bayside Radio.

Os hoffech ymuno â ni – p'un a ydych chi am fod yn Gefnogwr Diwydiant i hyrwyddo llwybrau gyrfa neu siarad am eich swyddi gwag presennol, byddem wrth ein bodd o glywed gennych chi. Gallwch anfon e-bost atom ar ceh@conwy.gov.uk neu ffonio 01492 576280.



Canolbwynt Cyflogaeth Conwy

01492 575578, ccc@conwy.gov.uk, www.conwy.gov.uk/canolbwyntcyflogaethconwy

PENODI CYDLYNYDD HYFFORDDWYR

Rydym yn falch o gyhoeddi penodiad Susan Tracey fel ein Cydlynnydd Hyfforddwyr newydd.

Mae gan Susan gyfoeth o brofiad yn y sector cyflogaeth ar ôl dechrau ei gyrfa yng Nghyngor Dinas Manceinion a datblygu trwy amryw rolau recriwtio gan gynnwys fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer asiantaeth recriwtio ranbarthol.

Yn ddiweddar, bu Susan yn rhedeg ei Hymgyngoriaeth ei hun, a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad sefydliadau, timau a phersonol, ond arweiniodd pandemig Covid-19 at ddirywiad dros nos o ran busnes, felly manteisiodd Susan ar gyfle i ymuno â Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy fel Mentor yn ôl ym mis Ionawr 2021.



Mae bod yn Fentor am 18 mis wedi bod o fudd iddi ar gyfer ei rôl newydd ac wrth sôn am hyn, meddai Susan; "Mae fy mhrofiad fel Mentor wedi fy ngalluogi i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu nifer o bobl wrth gael swydd yn ogystal â'r sgiliau a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn amhrisiadwy wrth sicrhau y bydd y llwybrau hyfforddiant i mewn i waith rwy'n eu datblygu yn ychwanegu gwerth go iawn i'r economi leol a chynnig cyfleoedd i gyfranogwyr ddatblygu sgiliau trwy hyfforddiant a phrofiad ymarferol a fydd yn eu helpu yn eu bywyd gwaith i'r dyfodol.

"Rwyf hefyd yn awyddus i gefnogi ein tîm o Fentoriaid ac Ymgynghorwyr i gyflawni eu nodau datblygu a darparu hyfforddiant sydd wedi'i dargedu at eu hanghenion ar gyfer eu rolau presennol a rolau'r dyfodol."

Dechreuodd rôl Susan ar 1 Gorffennaf ac mae hi wedi cael dechrau prysur gan ddatblygu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant o Ddiogelwch i hyfforddiant sgiliau ym maes manwerthu a gofal cymdeithasol/gwaith cefnogi. Mae hi'n gweithio gyda nifer o sefydliadau partner hefyd wrth ddatblygu cyrsiau ac mae hi'n cael trafodaethau gyda Grŵp Coleg Llandrillo am gyrsiau gwaith saer a phlymwaith.

Dywedodd Steve Griffiths, Rheolwr Ymarferydd Cyflogaeth i'r Canolbwynt; "Rydym wrth ein boddau bod Susan wedi dechrau yn ei rôl. Mae ganddi gyfoeth o brofiad sy'n ofynnol ar gyfer ei swydd ac rydym yn gweld cyrsiau newydd eisoes a fydd yn apelio at gyfranogwyr newydd i'n Rhaglenni Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a'u denu, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y datblygiadau cyffrous mae hi wedi'u cynllunio i'r dyfodol."

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y GRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL

Gyda'r estyniad chwe mis i raglen Cronfa Adfywio Cymunedol y DU, rydym yn ymestyn ein cefnogaeth.

Un o'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn ein cais i'r Gronfa Adfywio Cymunedol oedd cyflwyno cyrsiau datblygu i deuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, lle bydd gweithgareddau anturus yn yr awyr agored yn hybu cyfranogiad a chysylltiad â'r gwasanaethau, yn codi hyder, ac yn gwella'r ffordd y mae teuluoedd yn cyfathrebu ac ymwneud â'i gilydd.

Rydym wedi ffurfio partneriaeth â Chanolfan i Deuluoedd Douglas Road ym Mae Colwyn i redeg cwrs coginio pedair wythnos rhad ac am ddim i ddechrau ym mis Medi. Y nod yw helpu pobl i ddeall iechyd meddwl o safbwynt maeth a bydd yn archwilio sut i ddefnyddio cynhwysion parseli bwyd cyffredin i ychwanegu gwerth at eu deiet hefyd. Bydd cyfranogwyr yn cael cardiau rysâit a chynhwysion ar gyfer sesiynau ymarferol i greu prydau i fynd adref gyda nhw.

Cynhelir diwrnod hwyl i'r teulu i aelodau STAND yn Sŵ Mynydd Cymru ddydd Gwener 4 Tachwedd. Mae STAND yn cefnogi teuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu lleferydd ac iaith, anghenion ychwanegol ac anabledau, ac mae'r digwyddiad yn cynnwys sgwrs ddifyr a diddorol am weithio gydag anifeiliaid, sedd wrth sioe bwydo a hyfforddi'r morlewod, gorymdaith pengwinaid a sioe adar yn ogystal â gweithdy celf a chreffft unigryw lle darperir y deunyddiau i gyd.

Rydym yn gweithio gyda Chreu Menter hefyd i redeg diwrnod gweithgareddau awyr agored i deuluoedd ar gyfer ei brosiect Teuluoedd yn Gweithio. Bydd teuluoedd yn dysgu crefft fforio a sut i adnabod planhigion a ffrwythau sy'n tyfu'n wyllt ac sy'n darparu gwledd anhygoel a bwydwy am ddim. Byddant yn mwynhau cinio mewn caffi lleol hefyd a chael taith dywysedig o Gastell Conwy.

Daw'r newyddlen hon o restr bostio. Os dymunwch ddad-danysgrifio, [cliciwch yma](#) a theipiwch 'unsubscribe' yn y blwch 'Subject' a byddwn yn dileu eich manylion ar unwaith.



GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â CHYMUNEDAU AR GANOLFAN BYD GWAITH
WORKING IN PARTNERSHIP WITH COMMUNITIES AND JOBCENTRE PLUS

